**CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR**
**COFNODION Y CYFARFOD MISOL**
**20.03.2025 @ 7PM**
**LLYFRGELL NEUADD PANTYFEDWEN**
**PONTRHYDFENDIGAID**

1. **CROESO'R CADEIRYDD A MATERION PERSONOL**
   Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Elgan Williams bawb i'r cyfarfod.

2. **PRESENNOL**
   Y Cynghorydd Ieuan Davies;
   Y Cynghorydd Ifan Lloyd Davies;
   Y Cynghorydd Gareth Edwards;
   Y Cynghorydd Alun Price Jones;
   Y Cynghorydd Angharad Jones;
   Y Cynghorydd Richard Jones;
   Y Cynghorydd Gareth Owen;
   Y Cynghorydd Elgan Williams
   Eleri Thomas (Clerc).

3. **YMDDIHEURIADAU**
   Y Cynghorydd Mel Briant, y Cynghorydd Non Jones a Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH) John Evans.

4. **MATERION YR HEDDLU**
   **Darparodd SCCH John Evans y wybodaeth ganlynol ynglŷn â materion yr heddlu dros y mis diwethaf:**

   **Ymddygiad gwrthgymdeithasol / Aflonyddwch:** sero
   **Bwrgleriaeth**: sero
   **Difrod Troseddol**: sero
   **Lladrad**: sero
   **Trais / Ymosodiad:** sero
   **Twyll:** sero

5. **DATGANIAD O FUDDIANT PERSONOL A RHAGFARNLLYD:** Dim wedi'i ddatgan.

6. **CADARNHAU COFNODION 20 CHWEFROR 2025**
   **CYNIGIWYD (Y Cynghorydd Richard Jones); EILIWYD (y Cynghorydd Gareth Owen)** a **PHENDERFYNWYD** bod Cofnodion 20 Chwefror 2025 yn gofnod cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

7. **MATERION SY'N CODI**
   **7.1 Ardal Chwarae Pantyfedwen**
   Roedd y Cynghorydd Gareth Owen wedi cysylltu â Jacqueline Evans, Cynorthwy-ydd Cymorth Busnes – Cyllid grant Pobl a Lleoedd – Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.
   Disgwyliwyd Dyfynbris ar gyfer ffrwydro tywod a gorchuddio powdr yn y parc, cyn gwneud cais am grant. Angen atgyweirio'r ffens.

**7.2** **Maes Parcio'r Ysgol**: Roedd y Cynghorydd Richard Jones wedi brwsio'r maes parcio.

**7.3** **Arysgrifio enwau ychwanegol ar Gofeb Ryfel Bont.**
Roedd y Cynghorydd Richard Jones wedi sefydlu cost Plac A5 dur di-staen lle gellid arysgrifio enwau 4 person. £90 am blac x2 . Cytunwyd ei DDERBYN. i osod y 2 blac ar y concrit yn agos at ei gilydd.

**7.4** **Lloches fws newydd yn Ffair Rhos**

**Roedd y Cynghorydd Ieuan Davies wedi dod o hyd i loches fws addas. Rhaid** sicrhau darn o dir y gellid gosod y lloches fws. Bydd angen caniatâd a sefydlu pwy oedd yn berchen ar y gweithredoedd. Yn ofynnol codi arian i dalu'r gost.

**7.5** **Tocio coeden onnen ar Las y pentref:** gwaith ar y gweill – Y Cynghorydd Richard Jones. Adroddwyd bod y coed y Parc wedi'u tocio. (£1,500)

**7.6** **Bin graean: Cwrtywern**: Bydd angen i gynrychiolydd Cyngor Sir Ceredigion archwilio'r safle arfaethedig ar gyfer y bin i sefydlu ei ddichonoldeb. Os yn addas, cytunwyd prynu'r graean / tywod.

**7.7** **Cinio Blynyddol:** Dydd Sadwrn 1 Mawrth 2025, Tafarn Teifi, Ffair Rhos. 7-7.30pm Adroddwyd bod noson lwyddiannus wedi ei mwynhau gan bawb yn bresennol.

**7.8** **Torri glaswellt Dros fisoedd yr haf:** Tendrau
**Derbyniwyd un mynegiant o ddiddordeb gan Mr Dai Benjamin**

| Lleoliad | Fesul toriad a nifer o doriadau a chyfanswm 2025-26 | 2024-25 | Rhagamcaniad – y ddau'r un gost 2026-27 2027-28 |
|---|---|---|---|
| Glan-yr-Afon - | £65 x3 = £195 | £195 | £70 x 3= £210 |
| Rhif - 1-5 Maesydderwen | £65 x3= £195 | £195 | £70 x 3 = £210 |
| Mynedfa'r Pentref tua 2 metr o'r arwydd ar brif fynedfa'r pentref gan gynnwys y Glas | £140 x 6= £840 | £750 | £155 x 6 = £930 |
| O amgylch Neuadd Pantyfedwen i gynnwys yr ardal o fewn ffens Ysgol Feithrin a'r Parc | £180 x 6 = £1,080 | £960 | £195 x6 = £1,170 |
| CYFANSWM | **£2,310** | **£2,100** | **£2,520** |

**CYTUNWYD** derbyn y dyfynbris o £2,310 ar gyfer 2025 ac i ofyn tybed a allai'r pris o £2,310 aros yr un peth ar gyfer 2026 a 2027.

**7.9** **Diwrnod Buddugoliaeth Yn Ewrop (VE)** Dathliadau'r Pentref:
**Dydd Iau 8fed Mai 2025:** Goleuo'r Bannau.
**Dydd Gwener 9th Mai 2025**: Noson Thema 1940au mewn tŷ tafarn
**Dydd Sadwrn 10 Mai 2025** – Te Parti ar gyfer y Pentref– pob un i ddod â bwyd, lluniaeth a baneri ei hun os oes angen.

**Dydd Sul 11 Mai 2025**: Gwasanaeth Eglwysig
Y Cynghorydd Ifan Davies i ddylunio poster yn hysbysebu'r digwyddiadau ac anfon ymlaen at y Cynghorydd Ieuan Davies i'w gynnwys ar FB y Cyngor Cymuned.

**7.10 Arwyddion – Cadwch yr Ardal yn Daclus**: adroddwyd bod carthion cŵn yn berygl mewn rhai lleoliadau o fewn y Pentref. Y Cynghorydd Richard Jones i glustnodi sylw i brynu arwyddion addas i annog perchnogion cŵn i waredu ar garthion cŵn mewn modd cyfrifol.

**7.11 Pwyllgorau:**
Neuadd Pantyfedwen: Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd ar 17.03.2025 am 19.00.
Dywedodd y Cynghorydd Richard Jones fod incwm Pwyllgor Neuadd Pantyfedwen wedi gostwng £1,000 wrth gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
Apeliodd y Cynghorydd Richard Jones ar bob sefydliad y Pentref i estyn help llaw gyda'r gwaith o baentio tu allan y Neuadd yn ystod mis Ebrill 2025.

**8. GOHEBIAETH**

**8.1 Green GEN Cymru'n lansio** ymgynghoriad anstatudol Cam Dau ar gyfer prosiect Tywi Teifi. Cynhelir yr ymgynghoriad am chwe wythnos rhwng **5 Mawrth ac 16 Ebrill 2025.**
Dywedodd GreenGen:
"Byddai'r cysylltiad arfaethedig yn cysylltu Parc Ynni Lan Fawr, i'r dwyrain o Landdewi Brefi yng Ngheredigion, ag is-orsaf newydd i'r Grid Cenedlaethol yn Llandyfaelog, Sir Gaerfyrddin.

Mae prosiect Tywi Teifi yn rhan o gynlluniau Green GEN Cymru i ddatblygu rhwydwaith trydan cryfach a mwy cadarn, gan ychwanegu capasiti grid y mae mawr ei angen i ddarparu ynni glân ac adnewyddadwy i fusnesau a chymunedau.

Drwy ychwanegu capasiti ychwanegol at y grid, byddai prosiect Tywi Teifi yn cefnogi'r newid i sero net, gan ddatgloi'r potensial ar gyfer buddsoddi yn yr ardal yn y dyfodol, a helpu i greu swyddi a sgiliau.
Mae cynigion wedi eu diweddaru yn dilyn adborth i'r ymgynghoriad cyntaf, ac maent yn cynnwys:
- Dwy adran o waith gosod ceblau o dan y ddaear ger Bryn Myrddin a Llandyfaelog
- Lleoliadau arfaethedig y peilonau
- Newidiadau i'r llwybr i leihau'r effeithiau ar gymunedau "

Cytunwyd anfon ymateb at GreenGeen i fynegi gwrthwynebiad y Cyngor Cymuned Gymuned i'w cynnig. Nid oedd angen mwy o drydan ar Gymru a chysegru harddwch naturiol Cymru. Byddai'r datblygiad arfaethedig yn debygol o effeithio'n andwyol ar dwristiaeth a bywydau'r rhai gerllaw.

**8.2 Ffair, Ffair Rhos:** Roedd pwyllgor wedi cyfarfod yn ddiweddar i drafod dichonoldeb ailgyflwyno'r hen Ffair, Ffair Rhos. Ystyriwyd cyllid grant ac yswiriant. 23 Awst a 6 Medi i'w hystyried fel dyddiadau cyfleus. Roedd cofnodion 16.03.2025 wedi'u hanfon at sylw aelodau. Cyfarfod nesaf Dydd Sul 23 Mawrth am 7pm yn Nhafarn y Teifi.

**8.3 Un Llais Cymru;** cyhoeddi lansiad eu gwefan newydd sbon

Cynlluniwyd y wefan newydd, sydd ar gael yn https://onevoicewales.wales, i ddarparu profiad haws ei ddefnyddio, gyda nodweddion ac adnoddau gwell i wasanaethu cynghorau ledled Cymru.

**Manteision Allweddol y Wefan Newydd:**

- **Llywio Gwell:** Dewch o hyd i'r wybodaeth a'r adnoddau sydd eu hangen arnoch yn hawdd.
- **Ardaloedd Aelodau Unigryw:** Cyrchwch gynnwys wedi'i deilwra'n benodol ar gyfer aelod gynghorau.
- **Cyfathrebu Gwell:** Derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am y newyddion a'r digwyddiadau diweddaraf.

**8.4 Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol Cymru - Adroddiad Blynyddol 2025.** Yn unol â gofynion Adran 147 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, amgaewyd dolen i Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ("y Panel") 2025 i 2026.

Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol Cymru: adroddiad blynyddol 2025 i 2026 | LLYWODRAETH. CYMRU

**Adroddiad Blynyddol 2025 i 2026**

Roedd yr Adroddiad Blynyddol yn tynnu sylw at y newidiadau a wnaed i gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae rhestr lawn o'r holl Benderfyniadau perthnasol ar wefan y Panel.

**Adroddiad Etifeddiaeth**

Dyma Adroddiad Blynyddol olaf y Panel, cyn i'w swyddogaethau gael eu trosglwyddo i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru (DBCC) o 1 Ebrill 2025. Roedd y Panel wedi llunio Adroddiad Etifeddiaeth i gynorthwyo trosglwyddo swyddogaethau i'r DBCC. Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol am waith Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol hyd yma a'r meysydd o ddiddordeb a nodwyd i'w hystyried yn y dyfodol gan y DBCC.

**Penderfyniadau 2025 i 2026**

Penderfyniadau yr oedd y Panel wedi'u gwneud ar gydnabyddiaeth a lwfansau sydd ar waith ar gyfer y flwyddyn 2025 i 2026.

**8.5 Gohebiaeth Arall: Er gwybodaeth yn unig - roedd llawer o negeseuon e-bost wedi'u hanfon ymlaen at y Cynghorwyr, rhwng cyfarfodydd, yn electronig.**

**9. CYNLLUNIO**

**DIM**

**10. CYLLID**

**10.1 Cyflog y Clerc. Mawrth 2025** £238.33
**10.2 Costau'r Clerc:** (gan gynnwysTAW) £63.40
**10.3 Enid Hughes**: Archwiliad Ariannol Neuadd Pantyfedwen: £100
**10.4 Goleuadau Stryd: CS Ceredigion** £630.80 + £126.16 TAW CYFANSWM £756.96

**10.5 Aelodaeth Un Llais Cymru**: £69
**10.6 Llogi'r Neuadd:** Pwyllgor y Neuadd: £165

**10.7 Llwybr Dyffryn Teifi: Diweddariad gan Mr Jim Cowie am gynnydd y prosiect hwn.**

Roedd y llwybr hyd 80 milltir yn ymestyn o Ystrad Fflur / Pyllau Teifi i Draeth Poppit wedi'i farcio'n llwyr â marcwyr ffordd nodedig Taith Dyffryn Teifi- Teifi Valley Trail. Roedd llawer iawn o waith wedi'i wneud ac yn parhau, i sicrhau bod y llwybr heb rwystrau ac yn ddiogel.

Roedd y gwefan bron wedi'i gwblhau ac yn “gyhoeddus” cyn bo hir. Bydd yn cynnwys hysbysebion a dolenni i lety, bwyd a busnesau eraill a fydd yn cynyddu wrth i fwy eu hychwanegu.

Mae'r arweinlyfr gyda chyfarwyddiadau tro wrth dro bellach wedi'i ysgrifennu a’i gyflwyno maes o law, gerbron y dylunydd cyn ei argraffu dan law Gwasg Gomer, Llandysul. Darperir argraffiad Cymraeg a Saenseg

Iolo Williams oedd awdur Rhagair yr Arweinlyfr.

Roedd llawer o bobl a sefydliadau i fyny ac i lawr y dyffryn wedi cefnogi'r prosiect. Soniwyd am y rhain yn yr adran *Cydnabyddiaethau*. Disgwylir costau pellach fel arwyddion, paneli gwybodaeth ac argraffu a cheisiwyd mwy o gymorth grant.

Dywedodd Mr Cowie, “Gwrthododd Cyngor Cymuned Ystrad Fflur y cais am gyfraniad i'r prosiect yn flaenorol oherwydd cyfyngiadau ariannol. Fodd bynnag, byddai'n briodol i Gyngor Cymuned Ystrad Fflur ystyried wneud hyn, gan mai Ystrad Fflur a Phontrhydfendigaid yw’r anheddiad mawr cyntaf ar Daith Dyffryn Teifi. Byddai hyd yn oed cyfraniad bach yn helpu ac yn haeddu cynnwys Ystrad Fflur o fewn y *Cydnabyddiaeth* - byddai'n anffodus colli'r cyfle i gael rhywfaint o gydnabyddiaeth i'r gymuned.”

CYNIGIWYD (y Cynghorydd Elgan Williams), EILIWYD (y Cynghorydd Ifan Davies) a PHENDERFYNWYD cyfrannu £50.

**11. Eitemau ar gyfer Facebook: Diwrnod Buddugoliaeth Ewrop VE**

**12. UNRHYW FATER ARALL**

**12.1 Bydd y Cynghorydd Elgan Williams yn trefnu diwrnod "cynnal a chadw**" o fewn y Pentref (brwsio, tocio ac ati) cyn bo hir.
**12.2 Casglu sbwriel o gwmpas y pentref:** yn cymryd lle’n arferol, cyn Eisteddfod Gŵyl y Banc fis Mai.
**12.3 Roedd tyllau yn amlwg ar yr heol ar y Sgwâr, gyferbyn â Neuadd Pantyfedwen.** i atgoffa CS Ceredigion.

**Gan nad oedd unrhyw fater arall daeth y cyfarfod i ben am 8.35pm.**

**Dyddiad y cyfarfod nesaf: Dydd Iau 17 Ebrill 2025 @7pm.**

**Llofnod/ Dyddiad ---------------------------------------------------------------------------------------**